# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 4

SAFONAU

## PENNOD 6

HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

*Hysbysiadau cydymffurfio*

### 44 Hysbysiadau cydymffurfio

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "hysbysiad cydymffurfio" yw hysbysiad a roddir i berson (P) gan y Comisiynydd—

(a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol—

(a) mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill;

(b) mewn rhyw ardal neu rai ardaloedd, ond nid mewn ardaloedd eraill.

(3) Os yw rheoliadau o dan adran 39 yn darparu bod dwy neu ragor o safonau a bennir mewn perthynas ag ymddygiad penodol yn benodol gymwys i berson penodol, caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio—

(a) ag un o'r safonau'n unig, neu

(b) â gwahanol safonau—

(i) ar adegau gwahanol;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Hysbysiadau cydymffurfio. (See end of Document for details)*

(ii) mewn amgylchiadau gwahanol (boed ar yr un adeg neu ar adegau gwahanol);

(iii) mewn ardaloedd gwahanol (boed ar yr un adeg neu ar adegau gwahanol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 44 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 44 mewn grym ar 17.4.2012 gan O.S. 2012/1096, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Hysbysiadau cydymffurfio.